Service to the community | People | Gwasanaeth Tân ac Achub Fire and Rescue Service | Striving for excellence | Diversity and inclusivity

# GWEINYDDWR CYMORTH BUSNES - SYSTEM DDYLETSWYDD AR ALWAD

## Wedi'i leoli yng Nghonwy

## Parhaol, 37 awr yr wythnos NWFRS Gradd 04 £27,694 i £28,598 y flwyddyn

*( lwfans ychwanegol o 8.5% ar gyfer gweithio y tu allan i oriau)*

Rydym yn edrych i benodi Gweinyddwr Cymorth Busnes, yn barhaol a fydd yn darparu cymorth gweinyddol effeithlon ac effeithiol i'r tîm darparu gwasanaethau a phersonél yr orsaf On-call/RDS yn ardal Conwy.

Mae'r rôl yn gyfrifol am dasgau gweinyddu cyffredinol, gan gynnwys teipio llythyrau ac adroddiadau, ffeilio, trefnu gofynion cludo a logisteg, darparu apwyntiadau a nodiadau atgoffa cwrs i griwiau, cymryd nodiadau a chofnodion cyfarfodydd yn ôl yr angen. Byddant hefyd yn darparu cymorth gweinyddol i'r tîm recriwtio ac argaeledd ar alwad, gan gynorthwyo gyda chynnal digwyddiadau mewn gorsafoedd tân fel diwrnodau / nosweithiau agored a mynychu nosweithiau ymarfer i ddarparu cymorth gweinyddol yn y gorsafoedd tân rydych chi'n eu cefnogi.

Byddwch yn gyfathrebwr effeithiol gyda sgiliau trefnu da i reoli eich llwyth gwaith eich hun a chwrdd â dyddiadau cau. Bydd angen i chi fod yn hyblyg ac yn addasadwy i newid i ddelio â cheisiadau wrth iddynt godi a chael y gallu i weithio'n annibynnol gan ddefnyddio eich menter eich hun.

Er bod y rôl wedi'i lleoli yng Nghonwy, mae'r rôl yn darparu cymorth i orsafoedd tân yn Ardal Wasanaeth Conwy, felly darperir cerbyd gwasanaeth i ymgymryd â theithio rhwng gorsafoedd yn yr ardal hon a lleoliadau gwasanaeth eraill yn ôl yr angen.

Bydd gofyniad hefyd i'r deiliad swydd weithio'n hyblyg, o ddydd Llun i ddydd Gwener, i batrwm gwaith ansafonol. Bydd hyn yn cynnwys nosweithiau ar gyfartaledd unwaith yr wythnos a bydd yn denu lwfans ychwanegol o 8.5%. Bydd y patrwm gweithio ansafonol hwn yn cyfrannu tuag at yr wythnos 37 awr. I'w drafod ymhellach yn y cyfweliad.

Fel sefydliad dwyieithog, mae'r gallu i gyfathrebu'n hyderus ac yn rhugl yn y Gymraeg (Lefel 4) yn hanfodol ar gyfer y swydd hon. Mae'r swydd hefyd yn destun gwiriad DBS a geirdaon boddhaol.

Am ragor o fanylion am y rôl, cyfeiriwch at y pecyn gwybodaeth. I wneud cais, cwblhewch a chyflwynwch eich pecyn cais drwy e-bost i: recruitment@northwalesfire.llyw.cymru

**Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ffurflenni cais yw 12.00 hanner dydd, 13 Ionawr 2026, gyda'r cyfweliad wedi'i drefnu ar gyfer 26 a 27 Ionawr 2026.**

*Bydd y dyddiad cau yn cael ei gadw'n llym ac ni fydd unrhyw eithriadau yn berthnasol.*

disability confident EMPLOYER

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau | PROMOTING INCLUSIVITY helping to remove barriers

ARMED FORCES COVENANT CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG — EMPLOYER RECOGNITION SCHEME CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR — GOLD AWARD 2022 GWOBR AUR 2022

Live Fear Free Helpline
0808 80 10 800
call • text • live chat • email
Home shouldn't be a place of fear
Help is available 24/7

Cefnogwyr Pride Tân
Fire Pride Allies

safecall
Llinell Gymorth Gweithwyr Cyfrinachol

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i gyfle cyfartal i'r holl staff ac anogir ceisiadau gan unigolion waeth beth fo'u hoedran, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn Gymraeg a Saesneg a byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddau a byddwn yn ymateb yn eich iaith o'ch dewis yn ddi-oed. Bydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.